



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

Bloc 5, Llys Carlton, Parc Busnes Llanelwy,  
Llanelwy, LL17 0JG

Block 5, Carlton Court, St Asaph Business  
Park, St Asaph, LL17 0JG

Y Meddiannydd

**Ein cyf / Our ref:** JW/GH/DL/2784

**Eich cyf / Your ref:**



**Gofynnwch am / Ask for:**

**E-bost / Email:**

**Dyddiad / Date:** 8<sup>fed</sup> Ionawr 2021

Annwyl Meddiannydd

## Llythyr gan y Bwrdd Iechyd am coronafirws a'r brechlyn

Roedd 2020 yn flwyddyn anodd iawn i bawb. Mae cymaint ohonom wedi colli perthnasau a ffrindiau agos oherwydd coronafirws ac mae bywyd pob un ohonom wedi ei droi a'i ben i waered gan y pandemig.

Mae arnom eisiau diolch o galon i chi gyd; am eich cefnogaeth i'n staff rheng flaen ac am eich holl ymdrechion i helpu i atal lledaeniad y firws.

Yn anffodus, mae'r sefyllfa yng Ngogledd Cymru yn ddifrifol iawn ar hyn o bryd. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol iawn mewn achosion o'r firws, a'r straen newydd o coronafirws, sy'n trosglwyddo'n hawdd iawn yw'r mwyafrif ohonynt. Mae ein hysbytai a gwasanaethau iechyd cymunedol dan bwysau aruthrol o ganlyniad i hyn.

Mae arnom i gyd angen aros gartref eto i aros yn ddiogel, achub bywydau ac amddiffyn y GIG rhag cael ei orlethu.

Ond mae llygedyn o obaith i ni gyd. Byddwch wedi clywed bod dau frechlyn newydd yn awr ar gael, a thrydydd ar gael yn y gwanwyn. Dyma'r newyddion da rydym i gyd wedi bod yn aros amdano. Mae'n golygu gobeithio y gallwn ddechrau edrych ymlaen at ddychwelyd i fywyd normal.

## Sut mae'r brechlyn yn cael ei baratoi i fod ar gael

Mae gennym ddau fath o frechlyn ar gael ar hyn o bryd - un wedi ei wneud gan Pfizer-BioNTech ac un a ddatblygwyd gan Rydychen AstraZeneca, sy'n cael ei gynhyrchu yma yng Ngogledd Cymru.

Mae llawer iawn o waith wedi mynd i gynllunio'r ymdrech anferthol sydd ei hangen i roi'r brechlyn i bawb sy'n gymwys. Hyd yma, rydym wedi cael ein cyfyngu gan y cyflenwad o'r brechlynnau newydd, ond wrth i ni dderbyn mwy, bydd y rhaglen yn cynyddu'n gyflym a bydd mwy o glinigau'n cael eu sefydlu yn ystod mis Ionawr. Bydd mwy na 95 meddygfa yng Ngogledd Cymru yn cynnal clinigau brechu arbennig y mis hwn yn ogystal â'r canolfannau brechu yn yr Ysbytai Enfys a chanolfannau lleol eraill.



Byddwch yn cael eich gwahodd i gael y brechlyn pan ddaw eich tro. Bydd mwy na 1.5 miliwn o bobl yng Nghymru yn cael y brechlyn yn ystod y cam cyntaf – ond bydd yn cymryd amser i amddiffyn pawb. Bydd y bobl sydd yn y perygl mwyaf o gael y firws a datblygu salwch difrifol yn cael y brechlyn yn gyntaf.

Gallwch ddewis cael y brechlyn neu beidio a byddwch yn cael mwy o wybodaeth pan gewch eich apwyntiad. Rydym yn deall fod gan lawer o bobl bryderon am y brechlyn – mae llawer o fanylion ar y wefan isod am ddiogelwch y brechlyn a byddem yn annog unrhyw un sydd â phryderon i gymryd amser i ddarllen am y ffyrdd y mae'r brechlyn wedi cael ei brofi a'i gymeradwyo.

<https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/>

### **Pwy fydd yn cael y brechlyn yn gyntaf**

Cytunwyd ar y rhestr flaenoriaeth ar gyfer cael y brechlyn gan Gydbwyllgor annibynnol y DU ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI) ac fe'i dilynir gan bedair gwlad y DU.

Mae dau gam:

Yn ystod y cam cyntaf, byddwn yn brechu yn unol ag oedran a pherygl o gael salwch difrifol os bydd rhywun yn cael coronafirws.

Mae'r rhestr flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

1. Pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn a'r staff
2. Pawb sy'n 80 oed a hŷn a staff rheng flaen iechyd a gofal cymdeithasol
3. Pawb sy'n 75 oed a hŷn
4. Pawb sy'n 70 oed a hŷn a phobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol (sef y grŵp sy'n 'cysgodî')
5. Pawb sy'n 65 oed a hŷn
6. Pawb sydd rhwng 16 a 64 oed â chyflwr iechyd sylfaenol\* sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl o salwch difrifol a marwolaeth
7. Pawb sy'n 60 oed a hŷn
8. Pawb sy'n 55 oed a hŷn
9. Pawb sy'n 50 oed a hŷn

Mae'r grwpiau hyn yn cynrychioli tua 99% o farwolaethau coronafirws y gellid eu hatal.

*\* Mae cyflyrau iechyd sylfaenol yn cynnwys amrywiaeth o salwch gan gynnwys clefyd resbiradol cronig, yn cynnwys clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), ffibrosis cystig ac asthma difrifol, clefyd cronig y galon (a chlefyd fasgwlaidd), clefyd cronig yr arennau, clefyd cronig yr iau, clefyd cronig niwrolegol yn cynnwys epilepsi, syndrom Down, anableddau dysgu difrifol a dwys, diabetes, unigolion sydd wedi cael trawsblaniad organ solid, mêr a bôn-gelloedd, unigolion â chanser penodol, unigolion sydd â gwrthimiwnedd oherwydd clefyd neu driniaeth, camweithrediad sblenig ac asplenia, gordewdra morbid a salwch meddwl difrifol.*

Yn ystod yr ail gam, rydym yn aros am argymhellion pellach gan y JCVI ac rydym yn gobeithio y bydd gweddill poblogaeth Gogledd Cymru yn cael eu brechu. Cyngor y JCVI yw y dylai pwyslais y cam cyntaf fod ar atal mwy o dderbyniadau i'r ysbyty a brechu'r rheiny sydd mewn risg clinigol uwch yn gyntaf.

### **Cael eich apwyntiad brechu**

Byddwch yn cael gwahoddiad pan fydd yn amser i chi gael eich brechiad. Bydd yn cynnwys manylion am le i fynd i'w gael.

Nid oes angen i chi wneud cais am apwyntiad – byddwn yn cysylltu â chi. Peidiwch â chysylltu â'ch Meddyg Teulu na'ch ysbyty am apwyntiad gan na fyddant yn gallu trefnu apwyntiad i chi yn gynt.


Bydd pawb yn cael dau ddos o'r brechiad ond bydd gennych lefel uchel o amddiffyniad ar ôl y dos cyntaf. Byddwn yn gofyn i chi ddod yn ôl am eich ail ddos o fewn 12 wythnos o gael yr un cyntaf.

Pan fyddwch yn cael eich brechiad Covid-19, byddwch yn cael cerdyn imiwneiddio GIG Cymru maint cerdyn credyd. Bydd hwn yn ffordd o'ch atgoffa am eich ail ddos a bydd ganddo wybodaeth am sut i adrodd ar unrhyw sgil effeithiau hefyd (mae sgil effeithiau'n brin iawn a gallent gael eu hachosi gan unrhyw frechiad).

Rydym i gyd yn gobeithio y bydd y brechiad yn arwain at flwyddyn well a brafiach yn 2021 ac y bydd yn rhoi diwedd ar y pandemig hwn, ond bydd yn cymryd amser i'w gyflwyno a gofynnwn i chi am eich cefnogaeth barhaus ac i gadw at y mesurau diogelwch angenrheidiol; aros gartref, cadw at y mesurau cadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchudd wyneb lle bo angen a golchi eich dwylo'n rheolaidd.

Mae'r rhagofalon hyn yn helpu i atal y firws rhag lledaenu sydd, yn ei dro, yn lleihau nifer y bobl sy'n ddifrifol wael yn yr ysbyty yn uniongyrchol a rhoi mwy o amser i ni ddarparu'r brechiad. Gyda'n gilydd, trwy'r rhagofalon hyn a'r brechiad, gallwn amddiffyn ein cymuned.

Yn gywir



**Jo Whitehead**  
**Prif Weithredwr**  
**Chief Executive**